# Cenn@d

TACHWEDD 5 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 245

## Cofio Trychineb Dolgarrog

Ar noson dywyll a stormus ar 2 Tachwedd 1925 profodd pentref Dolgarrog drasiedi enfawr a arweiniodd at golli 16 o fywydau, deg oedolyn a chwech o blant, a difrod helaeth i'r gymuned.

Yn 1911, agorwyd argae Llyn Eigiau i gyflenwi dŵr ar gyfer gorsaf bŵer Dolgarrog oedd yn darparu trydan ar gyfer ffatri alwminiwm y pentref yn ogystal â nifer o drefi'r glannau. Yn ddiweddarach, yn 1924, adeiladwyd argae ychwanegol – argae Coedty.

Ar ôl pythefnos o law trwm, ar y noson honno ym mis Tachwedd 1925, gan mlynedd yn ôl, methodd argae Llyn Eigiau, gan ryddhau cyfaint enfawr o ddŵr i argae Coedty ymhellach i lawr y dyffryn. Achosodd y dŵr ychwanegol i argae Coedty fethu, gan ryddhau tua 350 miliwn metr ciwbig o ddŵr a chlogfeini enfawr a ruthrodd i lawr ochr y mynydd a thrwy bentref Dolgarrog.

Pentref a chymuned ym mwrdeistref sirol Conwy yw Dolgarrog. Saif ar ffordd y B5106 ar hyd glan orllewinol afon Conwy, rhwng Tal-y-bont a Threfriw.

Yn sgil y digwyddiad, collodd o leiaf hanner cant o drigolion eu cartrefi a'u holl eiddo. Adroddwyd ar y pryd y byddai nifer y marwolaethau wedi bod yn llawer uwch oni bai am y ffaith bod llawer o bentrefwyr yn gwylio ffilm yn y theatr leol, adeilad oedd tu hwnt i gyrraedd y llif.

Yn anffodus, nid Dolgarrog oedd y pentref Cymreig cyntaf i brofi'r fath drychineb. Cafodd deuddeg o bobl yng Nghwm-carn yng Nghwm Ebwy eu lladd pan dorrodd argae yno wedi cyfnod o law trwm ym mis Gorffennaf 1875. Er gwaethaf y dinistr a brofwyd yng Nghwm-carn, ni chyflwynodd y Llywodraeth reoliadau diogelwch argaeau.

Yn Ebrill 1925, yn Skelmorlie yn Swydd Ayrshire yn yr Alban drylliodd rhan o'r argae uwchben y pentref bach tawel gan ryddhau miliynau o alwyni o ddŵr ac arweiniodd hynny at farwolaeth pum person.

Arweiniodd y trychineb yn Nolgarrog, ynghyd â'r digwyddiad yn Skelmorlie yn yr Alban, at gyflwyno deddfwriaeth ar ddiogelwch cronfeydd dŵr am y tro cyntaf



yn y Deyrnas Unedig yn 1930. Addaswyd y ddeddf drachefn yn 1975 mewn ymdrech i sicrhau na fyddai'r fath drychineb ag a welwyd yng Nghwm-carn a Dolgarrog a Skelmorlie byth yn digwydd eto.

Mae trigolion Dolgarrog yn cofio'r drychineb mewn sawl ffordd. Mae'r gymuned yn cynnal gwasanaeth coffa i anrhydeddu'r chwe phlentyn a'r deg oedolyn a gollodd eu bywydau yn y llifogydd. Agorwyd llwybr coffa yno yn 2004 sy'n mynd heibio mannau arwyddocaol ac yn egluro'r digwyddiad.

Yn 2017 cafodd gardd goffa ei hadnewyddu i gofio am y rhai a fu farw a dadorchuddiwyd cofeb yno i gofio am y trychineb. Mae'n drueni bod y gofeb hon yn un uniaith Saesneg a mynegodd aelodau'r cyhoedd eu siom ar wefannau cymdeithasol am hynny. Trefnir digwyddiadau i addysgu'r gymuned am y trychineb, gan gynnwys prosiectau celf gweledol a chlywedol a gomisiynwyd gan blant ysgolion lleol ac artistiaid. Mae'r ymdrechion hyn yn anelu at gadw'r cof am y trychineb yn fyw a sicrhau bod ei effaith yn parhau i gael ei deimlo o fewn y gymuned.

Croes a chloch yw'r ychydig eitemau sydd ar ôl o'r eglwys wreiddiol a olchwyd ymaith yn y trychineb. Cedwir y gloch yn y Ganolfan Gymunedol a chaiff ei chanu er cof am y rhai a gollwyd ar benblwyddi arbennig, fel eleni adeg y canmlwyddiant. Cofiwn ninnau hefyd yn ein gweddïau ar yr adeg arbennig hon am anffodusion trychineb Dolgarrog a phob trychineb arall sydd wedi effeithio cymaint ar bobl ledled y byd ac sy'n parhau i wneud hynny.

(O bapur Elim, Heol Awst a'r Priordy, gofalaeth Bancyfelin a Chaerfyrddin)

### Er cof am y drychineb yn Nolgarrog, 2 Tachwedd 1925

Un mis Tachwedd
yn nhywyllwch y nos,
canrif gyfan yn ôl
y digwyddodd.

Chwalfa greulon, gas
yn gewri o gerrig
a cherrynt o goed
yn chwydfa enfawr
yn nhawelwch y tywyllwch.

Eneidiau diniwed:
tadau,
teidiau,
mamau,
neiniau,
yn ymbalfalu am eu teuluoedd
yn y llif hunllefus i afon Conwy.

Wylai cloch yr eglwys yn welw,
hithau, ar ei thaith heb obaith.

Erys yr hiraeth,
er chwilio yn y chwalfa
ni chanodd y gloch eilwaith.

Hyd heddiw, mae atsain ochenaid
yr un deg chwech
i'w theimlo,
Ni chawsant fedd na hedd gyda'u teulu.

Dolgarrog:
mae'r enw yn gynnwrf i gyd
fel enw Aberfan yn ei angen,
ar ôl yr angau.

Wylaf, wylaf, wylaf heddiw
am yr eneidiau diniwed.
Clywaf eu cri ar ôl canrif gyfan.
Gofidiwn a galarwn wrth gofio
y dagrau di-rif wedi'r danchwa,
blerwch y difaterwch.

*Gwilym Wyn*

**Ail-lansio'r Stafell Fyw – helpu pobl i herio alcoholiaeth**
Tudalen 2

**Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt**
Tudalen 7

**Sul Diogelu – 16 Tachwedd 2025**
Tudalen 8

# Ail-lansio'r Stafell Fyw – helpu pobl i herio alcoholiaeth

Lle bynnag yr awn y dyddiau hyn, bydd disgwyl bod bar alcohol ar gael, gan dybio nad yw cymdeithasu yn bosibl heb alcohol. I genhedlaeth iau, bydd rhannu cyffuriau neu sylweddau hefyd yn rhan o awyrgylch yr achlysur. Deallwn fod canran gynyddol o incwm y gwasanaethau a gynigir gan feddygfeydd ac ysbytai yn cael ei gwario ar effaith alcohol a sylweddau niweidiol. Gall hyn fod oherwydd niwed i gyrff pobl neu yrru ceir dan ddylanwad y cyffuriau sy'n achosi damweiniau difrifol. Mae'n dda felly sôn am ddatblygiadau yn ein hymateb i'r rhai sy'n dioddef effeithiau niweidiol y sylweddau hyn ar ein pobl.



Bydd darllenwyr *Cenn@d* yn gyfarwydd â'r Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill ynghyd â gwasanaeth y Stafell Fyw. Nid amcan yr erthygl hon yw sôn am orffennol y cyrff hyn, ond dweud fod ein Prif Weithredwr, Wynford Ellis Owen, wedi profi ei hun yn ymgynghorydd effeithiol ac yn cynnig arweiniad a thriniaeth i lu o glientiaid. Bydd yr enwadau crefyddol yng Nghymru yn cyfrannu'n flynyddol i gefnogi rhan o'r gwaith, a hynny i gynnig gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr Efengyl, gweithwyr Cristnogol a'u teuluoedd sydd yn dioddef o wahanol gyflyrau.

Brynhawn Sul, 26 Hydref, cynhaliwyd lansiad y Stafell Fyw yng nghapel Eglwys y Crwys, Caerdydd, yn nodi bod y gwasanaeth ar ei wedd newydd yn gweithio allan o ystafelloedd yng nghapel y Crwys. Wynford Ellis Owen lywyddodd y cyfarfod, gan rannu ei brofiad personol cyn gwahodd y Farwnes Ilora Finlay, un o noddwyr y Stafell Fyw ac Athro ym maes gofal lliniarol yn Ysbyty Felindre, Caerdydd, i sôn am y modd y mae alcoholiaeth yn herio cynifer o deuluoedd ac yn achos marwolaeth llawer. Nododd y gost i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a thu hwnt, ac y gellid arbed llawer o arian oddi ar gyllideb y GIG pe byddai modd cynnig gwellhad i'r sawl sy'n dioddef o effaith niweidiol alcoholiaeth a dibyniaeth ar gyffuriau. Pwy all fesur caethiwed i grafangau gwahanol fel pornograffi a gamblo, a'r gost i'r gwasanaethau cymdeithasol? Yn bennaf oll, mae'r nifer sy'n dioddef o glefyd dibyniaeth yn frawychus a'u bywydau teuluol a chymdeithasol yn arswydus.

Rhannwyd anerchiadau byrion gan y Parch. Denzil John (Cadeirydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill), Thomas Williams (Arweinydd Eglwys y Crwys) a'r Parch. Ifan Roberts (Cadeirydd Cynnal a thrysorydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill). Cyfeiriwyd at y modd y mae'r cymunedau sy'n cael eu cynrychioli yno'n awyddus i weld ail-lansiad y Stafell Fyw yn ennill tir ac yn hywyddo bywyd iach i fwy o bobl.

Cadeirydd Cyfeillion y Stafell Fyw yw Arwel Ellis Owen, ac ategodd neges y Trysorydd fod angen ffynonellau incwm newydd ar y Cyngor Alcohol. Mae gwir angen cyfraniadau unigol eto, a hefyd fod busnesau a chwmnïau'n derbyn y cyfrifoldeb o gynorthwyo gydag ariannu'r math hwn o waith.

Cafwyd gair o brofiad gan yr Athro Colin Powell (un o'r ymddiriedolwyr) yn sôn fel y bu i Stafell Fyw achub ei briod a'i briodas. Soniodd Carol Hardy, un a fu'n gweithio gyda Wynford yn y Stafell Fyw nes iddi ymddeol, am ei phrofiad yn dathlu'r blynyddoedd y bu'n rhydd o'r gaethiwed i alcohol. Cafwyd cyfraniadau ar fideo gan Meg Jones, chwaraewraig rygbi broffesiynol, yn adrodd hanes ei mam yn marw o effaith alcoholiaeth, a'i bod hithau am hyrwyddo'r Stafell Fyw yn ariannol. Noddwr arall yw'r gantores Lleuwen Steffan, ac roedd hithau wedi anfon neges ar ffilm o Lydaw yn diolch am y cymorth a gafodd yn bersonol.

Rhannodd y bardd Aneirin Karadog neges hyfryd ac roedd wedi llunio englyn yn sôn am y Stafell Fyw yn troi'r llanw:

Un diferyn o adferiad a dyf
yn don, gyda'r troad
daw llw'r llanw gall gwellhad
gyrraedd yn fôr o gariad.

Daeth gweithgareddau'r prynhawn i ben gyda the blasus wedi ei drefnu gan wragedd y Crwys a rhai o gleientiad y Stafell Fyw.

Yn yr hwyr, trefnwyd Cymanfa Ganu yng nghapel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, a chroesawyd pawb i'r digwyddiad gan y Parch. Denzil John. Y Parch. John Derek Rees a rannodd ddefosiwn agoriadol i'r noson. Yna cafwyd canu hwyliog, gyda'r gynulleidfa'n gwerthfawrogi cyfraniad yr arweinydd Eilir Owen Griffiths, gyda David Geoffrey Thomas yn cyfeilio ar yr organ.



Cafwyd datganiadau hefyd gan nifer o gorau: Côr Hen Nodiant, dan arweiniad Catrin Williams; Côr Ifor Bach, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths; a chôr Eglwys Bethlehem, Gwaelod y Garth. Canodd côr Eglwys Bethlehem emyn heddwch gan y diweddar Barch. Robert Owen, tad Arwel a Wynford, i gerddoriaeth newydd gan Eric Jones. Gwerthfawrogwyd datganiad cyffrous gan David Thomas o'r 'Toccata' gan Widor, ac roedd y noson ar ei hyd yn ysbrydoledig.

Nodwyd bod cyfle ar y noson i gyfrannu at goffrau'r Stafell Fyw a bod modd gwneud hynny ar lein hefyd.

*Denzil I. John*

# Y Pab, y Fatican a'r Hiwgenot o Grangetown

## Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn i gyfarfod â'r Pab yn y Fatican i lofnodi dogfen ddiwygiedig y *Charta Oecumenica*

Ar 5–6 Tachwedd 2025 bydd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, yn ymweld â'r Fatican ar gyfer gwrandawiad gyda'r Pab Leo. Nod y daith yw llofnodi a lansio'n swyddogol ddogfen ddiwygiedig y *Charta Oecumenica*. Mae hwn yn ddatganiad pwysig sy'n cadarnhau ymrwymiad eglwysi Cristnogol Ewrop i undod, ac wedi'i baratoi ar y cyd â'r Conference of European Churches (CEC).

Mae'r *Charta Oecumenica* yn amlinellu'r alwad gyffredin i gymunedau Cristnogol Ewrop gerdded gyda'i gilydd mewn ffydd, gwasanaeth ac adferiad. Bydd Dr Llwyd yn cynrychioli eglwysi Cymru yn y seremoni, gan ymuno ag arweinwyr o bob rhan o'r Cyfandir i adnewyddu eu hymrwymiad i ddeialog, heddwch a dealltwriaeth rhwng traddodiadau Cristnogol amrywiol.



### Taith o Ffydd a Chymod?

I Dr Llwyd, mae'r foment hon yn un o bwysigrwydd dwfn a phersonol. Roedd ei gyn-deidiau'n Hiwgenotiaid – Protestaniaid a orfodwyd i ffoi i Lundain o Ffrainc yn y 17eg ganrif oherwydd erledigaeth gan yr Eglwys Gatholig.

"Mae cael cyfarfod â'r Pab fel disgynnydd i'r rhai a orfodwyd unwaith i ffoi rhag erledigaeth grefyddol yn brofiad sy'n gwneud imi deimlo'n ostyngedig iawn," meddai Dr Llwyd. "Mae'n dangos pa mor bell rydym wedi dod — bod cymod, a fu unwaith yn amhosibl, bellach yn realiti byw yng nghorff Crist. Nid unffurfiaeth yw undod Cristnogol, ond mynegiant allanol o gariad Duw a chenhadaeth gyffredin yr Eglwys yn y byd heddiw."



### Undod Cristnogol yn Weithred

Mae'r *Charta Oecumenica* yn ailgadarnhau ymrwymiad eglwysi Ewrop i gydweithredu ym meysydd cyfiawnder cymdeithasol, adeiladu heddwch, cyfrifoldeb amgylcheddol a deialog rhyng-ffydd. I eglwysi Cymru, mae'n cynrychioli parhad traddodiad ecwmenaidd cyfoethog, yn ogystal ag adnewyddu diben cyffredin o fewn cymuned Gristnogol Ewrop.

"Mae Cytûn wedi gweithio ers blynyddoedd i feithrin dealltwriaeth a phartneriaeth rhwng enwadau Cristnogol Cymru," meddai Dr Llwyd. "Mae fy nhaith i Rufain yn tanlinellu bod y weledigaeth hon o undod yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n ffiniau – mae'n rhan o alwad gyffredin Ewropeaidd a byd-eang."

### Ynghylch Cytûn

Mae Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru yn dwyn ynghyd enwadau ac elusennau Cristnogol ledled Cymru er mwyn hyrwyddo undod, tystiolaeth gyhoeddus a gwasanaeth ar y cyd yn enw Crist, gan geisio byw'r undod y gweddïodd Iesu drosto: "fel y byddant oll yn un" (Ioan 17:21).

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*
E-bost: cynan@cytun.cymru
Gwefan: www.cytun.cymru

# Podlediadau newydd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru

**Mae Gethin Russell-Jones wedi paratoi dau bodlediad newydd ar bynciau amrywiol a pherthnasol i'n gweinidogaeth. I gael mynediad atyn nhw ac i wrando arnyn nhw,, clicwch ar y dolenni perthnasol.**



**Caplan ar gyfer Pobl Hŷn, a'n hymateb i'r Mesur Cymorth i Farw**

Yn y bennod hon, rydyn ni'n cwrdd â Samantha Hodgins, sydd wedi ei phenodi'n Gaplan ar gyfer Pobl Hŷn o fewn Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Hi yw'r gyntaf erioed i'w phenodi i'r gaplaniaeth hon o fewn yr enwad a bu'n rhan o drefnu'r gynhadledd 'Gras ar gyfer pob tymor' yn ddiweddar.

Byddwn ni hefyd yn clywed gan y Parch. Huw Powell-Davies, gweinidog mewn gofalaeth a chaplan ysbyty, am sut y gallwn ni lywio ein ffordd drwy ddyfroedd dyfnion y Mesur Cymorth i Farw sy'n mynd rhagddo drwy'r Senedd ar hyn o bryd.

https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/2262620/



**Wynford Ellis Owen – Caethiwed a'r weinidogaeth**

Yn y bennod newydd hon, mae Gethin yn siarad â Wynford Ellis Owen, Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Rydyn ni'n sgwrsio am gaethiwed, y weinidogaeth, a'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan Ystafell Fyw a'r mudiad Cynnal.

https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/2299136/

# O'r Swyddfa – neu'r Parlwr Ffrynt

## *O adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol (EBC)*

Wrth i'r dydd fyrhau a ninnau'n cael croesawu tymor yr hydref, cefais f'atgoffa o'r newydd, wrth ddarllen Salm 23, ein bod yn darllen y geiriau 'oherwydd yr wyt ti gyda mi' reit ynghanol y salm. Dyma addewid yr Arglwydd i ni ynghanol y tymor hwn ac wrth fentro i'r dyfodol: 'dw i gyda chdi' – paid poeni, er efallai y bydd raid i ti gerdded trwy ddyffryn tywyll, du, mi fydda i'n parhau i fod gyda chdi.

Wrth edrych yn ôl, felly, ar yr hyn a wnaed yn y Gymanfa Gyffredinol yn Llandudno ym mis Gorffennaf eleni ac wrth i ni fentro i dymor, a chyfnod, newydd yn ein hanes, rydym ni'n gwneud hynny gan gydnabod bod ein 'cwpan yn llawn'. Gan ganoli ar amrywiaeth eang ein gweinidogaethau a'n cenhadaeth, carwn nodi'n gryno rai o'n blaenoriaethau fel Eglwys ar gyfer y tymor newydd hwn.

### Ailstrwythuro

Penderfynodd y Gymanfa eleni y byddem fel Eglwys yn gosod cyfnod ymgynghorol ar ailstrwythuro o'r hydref hyd y gwanwyn yn ein holl lysoedd. Rydym yn annog PAWB – yn aelodau, yn flaenoriaid, yn weinidogion ac yn weithwyr – i neilltuo amser penodol i drafod yn weddigar ac i nodi hefyd ymatebion clir a fydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymdeithasfa'r Gwanwyn y flwyddyn nesaf. Bydd hynny'n ein paratoi ar gyfer cyflwyno'r penderfyniadau terfynol yn y Gymanfa Gyffredinol yn 2026. Efallai fod gennym lawer o gwestiynau am hyn – nid y lleiaf ohonyn nhw: Pam ailstrwythuro?

Yr ateb yn syml ydy – i dri phwrpas:

- **grymuso gweinidogaeth leol**
- **symleiddio llywodraethiant**
- **cynnal cenhadaeth berthnasol yng Nghymru heddiw.**

Pa effaith fydd hyn yn ei chael ar y ffordd yr ydym wedi arfer gwneud pethau ers blynyddoedd maith a pha newid mewn gwirionedd a all fod yn bosibl?

Mae copïau o'r ddogfen argymhellion eisoes wedi ei rhannu ar bapur ac ar lein, gyda'r adnod o Eseia 43: 19 yn thema ac anogaeth i'r gwaith: "edrychwch, rwyf yn gwneud peth newydd". Fe welir bod yna arweiniad clir sut i drafod y cylchoedd y mae gofyn inni eu hystyried, gan ddechrau gyda'r eglwys leol a'i chenhadaeth a'i gweinidogaeth. Gellir cael golwg arno o gysylltu efo'r swyddfa yng Nghaerdydd.

### Apêl Manipur

Bu Apêl Manipur yn ganolog i'n gweddi a'n gweithredu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r apêl ariannol yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn hon. Diolch i bawb a fu'n casglu arian yn ystod y misoedd diwethaf, a dymuniadau gorau i'r holl ymgyrchoedd a digwyddiadau sydd eto i'w cynnal.

Cawsom ddathlu gŵyl y 'Kût' (gŵyl o ddiolchgarwch a ddethlir gan lwythau Gogledd-ddwyrain India wrth i'r cynhaeaf reis gael ei gasglu) gyda diaspora'r Kuki Zo yng Ngholeg y Bala eleni – penwythnos arbennig iawn. Bu'n gyfle hyfryd i gyfarfod â chymaint o'r teuluoedd sy'n byw yma yng Nghymru ac yn Lloegr.

Ddechrau Medi clywsom fod y gwrthdaro'n parhau ym Manipur a bod effaith hynny'n erchyll. Erbyn hyn mae 60,000 o bobl wedi eu dadleoli ers dechrau'r gwrthdaro ym mis Mai 2023. Mae llawer yn dal i fyw mewn gwersylloedd lloches – ysgolion neu neuaddau sydd wedi eu gadael, a hynny dan amodau anodd a diurddas.

Mae'r sefyllfa'n ddirdynnol – dim cefnogaeth seicolegol neu gyngor trawma na chlinigau lleol hyd yn oed. Y rhai sy'n dioddef waethaf yw mamau sengl a phlant amddifad. Rhaid teithio'n bell i'r ysbyty, a golyga hyn nad yw clefydau cronig yn cael eu trin, a bod merched beichiog heb fynediad at feddyginiaeth na gofal priodol. Mae hyd yn oed ffliw syml yn gallu bod yn fygythiad i fywyd. O ran maeth, mae'r bwyd yn gyfyngedig i reis, llysiau sych a halen yn



Dr Sharon Singsit-Evans, Eryl Edwards a Nan Powell-Davies yn dathlu gŵyl y Kût

unig, ac mae llawer o'r plant yn dangos arwyddion o ddiffyg maeth ac ansicrwydd.

Felly, wrth i ni barhau i weddïo'n rheolaidd a chynnal ein digwyddiadau codi arian, gadewch i ni fel Eglwys hefyd i barhau i gofio ac i godi llais yn erbyn yr anghyfiawnder a ddioddefir gan ein brodyr a'n chwiorydd yn Manipur.

### Cyfathrebu

Yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn diweddaru ac yn ailffurfio ein gwefan fel bod y deunydd yn ymddangos yn rhwydd ac yn fwy deniadol arni.

Cefais sawl cyfle i rannu ar amrywiol bynciau a straeon ar y cyfryngau yn ystod y misoedd diwethaf. Mae criw bach ohonom yn parhau i gyfarfod yn fisol i drafod beth rydym am ei gyfathrebu, ac ar ba gyfrwng y mae orau i wneud hynny.

### Hyfforddiant

Wrth i ni fel Eglwys ddod at gyfnod hollbwysig o ailstrwythuro, bydd yr Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant yn mynd ati i asesu cyflwr presennol y ddarpariaeth hyfforddi ar gyfer gweinidogion, blaenoriaid ac arweinwyr lleyg. Mae'r angen i feithrin diwylliant hyfforddi ac iddo wreiddiau hanesyddol ac sydd ar yr un pryd yn agored i'r llais proffwydol yn ein galw i gymryd y gwaith yma o ddifrif.

Rydym yn sefyll ar groesffordd, gydag aelodaeth sy'n heneiddio'n gyflym, cenhedlaeth o weinidogion sy'n agosáu at ymddeol, a chyd-destun cymdeithasol bregus. Mae'n angenrheidiol ein bod ni fel Eglwys yn darparu ac yn cyfeirio ein hyfforddiant i fod y gorau posibl. Bydd hyn yn gofyn am gydweithio a bod yn fentrus wrth ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym yn barod o fewn y Corff. Yn ystod y misoedd nesaf hyn byddwn yn ailddychmygu sut rydym yn hyfforddi ac yn gwneud disgyblion o fewn ein cyd-destun cenhadol a'n tirwedd ddiwylliannol ein hunain.

### Canolfan Trefeca

Mae Trefeca wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r defnydd o'r safle ar gyfer encil, lletygarwch Cristnogol, a chreadigrwydd. Mae cynlluniau ar gyfer datblygu'r stablau, adfer Tŷ Howell Harris,

(parhad ar y dudalen nesaf)



Grŵp o Manipur yn wreiddiol yn canu yn y gwasanaeth yng Ngholeg y Bala yn ystod eu hencil yno

## *O'r Swyddfa – neu'r Parlwr Ffrynt*

*(parhad o dudalen 4)*

a chynnig rhaglenni ffurfiannol yn parhau. Mae'r weledigaeth yn cynnwys adrodd stori Trefeca yn fyd-eang, datblygu gweithdai, a chynnig lle i gwrdd â'r Crist Atgyfodedig.

### Parhad Coleg y Bala a'r gwaith yno

Penderfynodd yr Adran Adnoddau ym mis Mai i gyllido gwaith y Coleg yn ei strwythur presennol hyd ddiwedd 2028, gan weithio tuag at strwythur newydd a modelau newydd a hyfyw ar gyfer y gwaith yno. Er mwyn cyflawni hyn, fe fyddwn yn penodi unigolyn/unigolion i osod y weledigaeth ar seiliau cadarn i'r dyfodol a gweld parhad yn y gwaith ardderchog yno sy'n dwyn cymaint o fendith inni fel Eglwys ac fel cenedl.

### Croeso i'r Llywydd Newydd

Ers y Gymanfa Gyffredinol, lle croesawyd Miss Glynis Owen fel Llywydd newydd, yr ydym wedi cael ein bendithio gan ei hymroddiad a'i harweiniad, a gweddïwn am bob rhwyddineb iddi wrth i'w chyfnod fynd rhagddo. Mae ein diolch eto i'r Parch Aneurin Owen am ei wasanaeth ffyddlon ac arweiniad clir a gweddigar dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Parhawn i'w gofio yntau yn ein gweddïau hefyd.

Wrth gloi, felly, ac wrth symud ymlaen gyda'n gilydd, rydym yn cofio mai'r Arglwydd sy'n ein harwain. Boed i ni barhau i weddïo, mentro, a gwasanaethu'n hyderus ac yn effeithiol yn yr adnabyddiaeth o bresenoldeb y Bugail Da yn Salm 23: 'oherwydd yr wyt ti gyda mi'. Diolch i chi i gyd am eich gwaith diflino, ac edrychaf ymlaen at weld mwy ohonoch wrth ddod o amgylch yr henaduriaethau i edrych ar ailstrwythuro yn ystod y misoedd nesaf.

*Parch. Nan Wyn Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol EBC*
*Hydref 2025*

# Cyfarfod Comisiynu Morgan Bryn Williams, Swyddog Ymestyn Allan ym Môn



Testun llawenydd i ni, aelodau Henaduriaeth Môn, oedd cael croesawu Morgan Bryn Williams i'n plith fel Swyddog Ymestyn Allan yn ôl ym mis Mai eleni.

Gŵr ifanc yn llawn egni, brwdfrydedd ac ymroddiad yw Morgan, ac mae wedi gwneud ei hun yn gartrefol yn ein mysg mewn byr amser.

Hyfryd oedd cael cynnal cyfarfod arbennig i gomisiynu Morgan ar 18 Hydref yn Eglwys Unedig Rhos y Gad, Llanfair-pwll, gyda chynulleidfa deilwng yn bresennol i dystio i'r achlysur hapus hwn.

Llywyddwyd y cyfarfod yn ddeheuig gan y Parch. Ddr Alun Morton Thomas, Gweinidog Gofalaeth Bro Llanfair-pwll a'r Cylch, a chafwyd canu ysbrydoledig dan arweiniad Iwan Davies ar yr organ.

Cafwyd darlleniad o Lythyr Paul at y Rhufeiniaid 10:8–15 yn y Gymraeg a'r Saesneg gan John Lewis Edwards ac Eli Williamson.

Cyflwynwyd Morgan i gael ei gomisiynu yn annwyl iawn gan y Parch. Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC. Gofynodd Nan am ein cefnogaeth i Morgan wrth iddo ymgymryd â'r swydd arloesol hon, a diolchodd Nan hefyd i Morgan am fod mor driw i alwad yr Arglwydd ar ei fywyd.

Y Parch. Brian Huw Jones, Cadeirydd Adran Gweinidogaethau EBC, oedd yng ngofal y comisiynu, a gwnaeth hynny gydag urddas.

Croesawyd Morgan yn gynnes iawn ar ran Henaduriaeth Môn gan yr Athro Eryl Wynn Davies a dymunodd fendith Duw i Morgan yn ei swydd newydd.

Priodol iawn oedd mai'r Parch. W. Bryn Williams, Pwllheli, sef tad Morgan, a gyflwynodd y siars. Testun ei bregeth oedd: 'Wedi dy anfon – i siarad dros Dduw'.

Gosododd Bryn sialens i Morgan: i bregethu'r Gair, i garu ei bobl, ac i gerdded yn ostyngedig. Yn ogystal, gosododd Bryn sialens i ninnau fel cynulleidfa: i gefnogi Morgan a Leah, ei annwyl briod, i weddïo drostynt a'u hannog ymlaen.

Hyfryd oedd cael cwmni Leah a chroesawu ei theulu o Ogledd Iwerddon i fod yn rhan o'r achlysur cysegredig hwn.

Dymunwyd pob hapusrwydd i Morgan a Leah yn eu cartref newydd ym Mryngwran cyn cyhoeddi'r Fendith, gyda phawb wedyn yn ymuno yn y festri am luniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu a llongyfarch Morgan ymhellach.

Boed i haul cyfiawnder wenu ar Morgan a Leah wrth i'w taith briodasol ac ysbrydol fynd rhagddi yn ein mysg yma ym Môn.


Braint ac anrhydedd oedd cael bod yn bresennol i dystio i'r digwyddiad pwysig ac unigryw yma yn hanes Henaduriaeth Môn:

O mor ddwys yw awr neilltuo
    cennad newydd at ei waith,
rho dy gwmni yn wastadol
    i'w gysgodi ar y daith;
dyro iddo
    glywed llais y Bugail da.

*John Lewis Edwards*
*Eglwys Unedig Rhos y Gad, Llanfair-pwll*

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi Llen 4 – Ymson Rebeca

Yn fy ieuenctid ro'n i'n brydferth, ond mae prydferthwch yn gallu diflannu mor gyflym â niwl y bore. Yr hyn sy'n aros yw ein dewisiadau.

Cofiaf y diwrnod pan welais y dieithryn, gwas Abraham, yn sefyll wrth y ffynnon. Rhoddais ddŵr iddo a chodi peth wedyn o'r ffynnon i'w gamelod. A dyna'r arwydd iddo, mae'n debyg, mai amdanaf fi yr oedd yn chwilio. Roedd Duw wedi fy newis ac wedi gweld yr addewid ynof fi.

Rhoddodd hwn dlysau imi ac wrth weld y breichledau'n euro fy ngarddwrn, cododd cyffro o'm mewn. Rhedais adre at fy nheulu. Gofynnwyd imi a fyddwn yn barod i adael fy nghartref, a daeth yr ateb cadarnhaol o'm genau cyn imi gael eiliad i feddwl. Gwyddwn fod rhywbeth wedi fy nghymell i fynd at y ffynnon y diwrnod hwnnw. Credais mai dyma gynllun Duw ar fy nghyfer.

Ac yna, un noson, gwelais Isaac yn cerdded tuag ataf. Roedd yn dal ac yn olygus, a dechreuodd fy nghalon guro'n gyflymach. Taenais liain dros fy wyneb, nid oherwydd bod arnaf ofn, ond oherwydd fy mod wedi fy fferru i'r fan gan edmygedd. Roedd rhyw dawelwch yn pelydru ohono ac anwyldeb yn ei wedd. Aeth â fi i mewn i'r babell ac fe gerais i ef ac yntau minnau. Roedd popeth yn dda, am gyfnod.

Aeth y blynyddoedd heibio. Roedd un peth ar goll – plentyn. Wylais droeon, ac ymbilio ar Dduw i'm helpu, ond ddigwyddodd dim. Bu farw Sara ac yna Abraham. Gweddïodd Isaac drosof yn daer. Yna'n wyrthiol teimlais y symud tu mewn imi – nid un babi bach ond dau! Roedd pedair llaw fechan yn dyrnu fy stumog a hynny'n peri poen.

Yna dywedodd Duw y byddai un o fy meibion yn gryfach na'r llall ac mai'r hynaf o'r ddau fyddai'n was i'r ieuengaf. Doeddwn i ddim yn deall ar y dechrau, ond roedd y rhaniad rhwng y ddau fab wedi digwydd, hyd yn oed cyn iddynt gael eu geni.

Ddywedais i ddim wrth Isaac, ond yn union wedi i'r bechgyn gael eu geni, roeddwn yn caru un yn fwy na'r llall. Hoffwn y tawelwch tu mewn i Jacob, ond ffafriai Isaac y cryfder yn y mab arall, Esau. Wrth iddynt dyfu, daeth yn amlwg mai'r awyr agored oedd yn mynd â bryd Esau, tra byddai Jacob yn myfyrio'n aml a'i feddwl yn graff. Gwyddwn mai Jacob oedd yr un a fyddai'n cyflawni gwaith Duw.

Ac yntau'n ddall, roedd dyddiau Isaac yn dirwyn i ben. Daeth yn amser iddo fendithio'r mab hynaf. Rhoddais fy meddwl ar waith i gynllwynio y byddai Jacob yn derbyn y fendith yn lle Esau. Byddai Jacob yn gwisgo dillad Esau ac yn mynd â'r cig gorau posib at Isaac. Paratois innau bryd bwyd amheuthun. Credwn fy mod yn gwneud y peth iawn, a chafodd Jacob ei fendithio yn lle Esau. Feddyliais i ddim y byddai hynny'n newid popeth. Roedd Isaac ac Esau'n gynddeiriog. Bu'n rhaid imi yrru Jacob i ffwrdd at fy mrawd, Laban. Twyllais fy hun mai ei yrru i gael gwraig yr oeddwn ac y byddai'n dychwelyd. Ond welais i mohono fyth wedi hynny.

Nawr rwy'n hen ac yn teimlo pwysau fy ngweithredoeddd ar f'ysgwyddau. Byddaf yn holi fy hun yn aml beth fyddai wedi digwydd pe na byddwn i wedi ymyrryd? Oeddwn i'n anghyfrifol neu a oedd Duw wedi fy nefnyddio i gyflawni ei ewyllys?

Bu fy mywyd yn gymysglyd: yn llawn o ffydd ac amheuaeth, o gariad a siom. Cheisiais i ddim ffafriaeth imi fy hun, ond gwn yn awr imi wneud dewisiadau a fyddai'n dod ag anfri arnaf. Yn y dyfodol, bydd pobl yn gweld fy nhwyll yn hytrach na'm dymuniad i fod yn ffyddlon i lais Duw. Dyna fy nhristwch i.

**Holi**

- Ydych chi'n gweld Rebeca fel person dewr neu fel person ffôl? Beth fyddech chi wedi'i wneud yn ei sefyllfa hi?
- Sut wyddom ni ydyn ni'n gwneud y dewisiadau cywir ac yn gweithredu yn ôl dymuniad Duw? Oes mantais mewn bod yn amyneddgar ar dro neu a ddylem wrando ar ein greddf fewnol?
- Ydych chi'n tybio bod ewyllys Duw yn dibynnu ar gydweithrediad meidrol, neu a yw ewyllys Duw yn cael ei gyflawni, beth bynnag a wnawn ni?

**Gweddi**

Dymunwn ddewrder i ddilyn y llwybr cywir, hyd yn oed os yw hynny'n peri ofn inni. Dymunwn allu ymddiried yn Nuw, hyd yn oed os yw hynny'n teimlo'n anodd. Dymunwn wrando ar lais yr Iôr, hyd yn oed os nad ydym yn siŵr o'r canlyniadau. Dymunwn dderbyn bod cynllun Duw ar ein cyfer yn rhyfedd ac yn rhyfeddol weithiau. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Tachwedd, am 7:30yh – Sul y Cofio**
Bydd Nia Roberts yn ymweld â chofebau'r Rhyfel Mawr yng Ngwlad Belg i gyflwyno rhaglen arbennig i nodi Sul y Cofio. Mae milwr o Gymru a fu'n ymladd y Taliban yn Affganistan yn rhannu ei stori ddirdynnol. A chawn berfformiad gan Shân Cothi a mwynhau emynau o addoldai ledled Cymru.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rob Nicholls

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 9 Tachwedd, am 12:00yp**
Oedfa Sul y Cofio, dan arweiniad Watcyn James, Capel Bangor

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt



Mae fy ngŵr a fi newydd ymuno â chlwb newydd – clwb mam-gus a thad-cus! Dwi'n ysgrifennu'r geiriau hyn yn yr Almaen yn fflat ein mab, ac mae ein hwyres newydd hardd, Emily, yn cysgu ar frest ei thad. Mae hi'n hollol berffaith, gwyrth yn wir.

Fel mae rhai ohonoch yn gwybod, yn anffodus mae fy ngŵr a minnau'n aelodau o glwb arall hefyd, clwb does neb eisiau ymuno ag e. Clwb rhieni sydd wedi colli plentyn. Bu farw Chris yn 25 oed dair blynedd yn ôl. Mae ei hoff dedi wedi mynd i Emily nawr. Byddai ei wncl Chris wedi bod mor falch ohoni!

Ar ôl y cyffro a'r llawenydd cychwynnol o roi cwtsh ar ôl cwtsh i Emily fach, a rhyfeddu at ei pherffeithrwydd, daeth ton o ofn drosof yn hollol annisgwyl. Beth fyddwn i'n ei wneud tasai rhywbeth yn digwydd iddi? Mae hi'n edrych mor fach ac mor fregus. Sut i'w hamddiffyn rhag popeth drwg yn y byd, i fod yn sicr na fydd ei rhieni hi byth yn aelodau o'r ail glwb erchyll yna?

Yr ateb, wrth gwrs, yw does dim modd ei hamddiffyn rhag pob drwg. Mae pethau drwg yn digwydd, weithiau ar hap a damwain, weithiau oherwydd ein camgymeriadau ni, weithiau oherwydd methiannau pobl eraill. Sut gallwn ni fyw, felly, fel pobl o ffydd, mewn byd mor anwadal?

Mae dau ateb posibl i'r cwestiwn sut i fyw mewn byd ansicr. Yr ateb cyntaf yw ceisio cael gwared o bob ansicrwydd, pob perygl. Cynilo arian i brynu diogelwch ar ffurf pensiwn, yswiriant meddygol i brynu sicrwydd iechyd corfforol, adeiladu muriau i brynu amddiffyniad rhag lladron, ac yn y blaen. Ac er ei bod hi'n synhwyrol i wneud hyn i ryw raddau, y broblem yw does dim modd i ni gael gwared o bob risg. Dydyn ni byth yn gallu cael sicrwydd ein bod ni'n hollol saff. Ac felly mae'r ffordd hon yn arwain at bryder: ydw i wedi gwneud digon i fi a fy anwyliaid fod yn saff?

Mae ffordd ffydd yn wahanol. Mae ffydd yn dweud: dydy cariad Duw ddim yn ein hamddiffyn rhag drwg. Ond, mae'n addo bod gyda ni drwy beth bynnag a ddaw. Dydyn ni byth ar ein pennau ein hunain. Hyd yn oed yn well: dydy'r dyfodol ddim yn dibynnu arnom ni. Mae cariad Duw wedi creu'r byd; cariad Duw sy'n ei gynnal; cariad Duw fydd yn gweithio popeth allan yn y diwedd. Mae'r dyfodol, fel y presennol, yn nwylo Duw.

Dyma felly'r addewid: beth bynnag a ddaw, bydd cariad Duw yn ein cynnal ac ein harwain reit yng nghanol pob dioddefaint a thristwch, pob dathliad a llawenydd. Dyna oedd addewid Iesu: i roi ei dangnefedd inni, tangnefedd sy'n wahanol i heddwch y byd. Achos mae heddwch y byd yn dibynnu ar amgylchiadau bywyd. Ond mae tangnefedd Iesu'n dibynnu'n unig ar gariad Duw, sy'n hollol gyson a dibynadwy.

Y mis yma yn y Tabernacl rydym wedi bod yn astudio Julian o Norwich. Cristion anhygoel o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, a'r fenyw gyntaf i ysgrifennu llyfr yn yr iaith Saesneg. Mae hi'n enwog am y dywediad hwn: 'all shall be well, all shall be well, and all matter of thing shall be well'.

Ie, Emily, 'all shall be well'. Nid oherwydd ymdrechion dy rieni neu dy fam-gu a thad-cu. Ond oherwydd bod Duw yn dy garu di. Heb os nac onibai.

SO
ARFOGI
EQUIP 25
Coleg y Bala
14-16.11
Penwythnos i annog ac arfogi oedolion ifanc. Mae croeso i fyfyrwyr, teuluoedd ifanc ac unrhyw un yn eu 20au a 30au
souledoutcymru.net



Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales
Who on Earth is Jesus Christ? - an early Church Conundrum
**Darlith Goffa Gethin Abraham-Williams**
**gyda'r Tad Jarel Robinson-Brown**
**Rhagfyr 10fed**
**Drysau'n agor am 6pm ar gyfer lluniaeth ysgafn**
**Canolfan y Drindod, Heol Casnewydd, Caerdydd**
**RSVP i post@cytun.cymru neu Eventbrite**
Dewch i ddathlu'r Nadolig a 1700 mlynedd ers Cyngor Nicea gyda Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru
Croeso cynnes i bawb

# Sul Diogelu – 16 Tachwedd 2025

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel




**Beth am gynnal Gwasanaeth Sul Diogelu yn eich eglwys chi eleni? Mae Sul Diogelu 2025 ar 16 Tachwedd. Mae'n gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn eich eglwys leol mewn modd cadarnhaol a chyfeillgar.**

Gallwch neilltuo eich gwasanaeth i gyd neu ran ohono i ddiogelu, neu dewiswch dyddiad arall!

Mae Sul Diogelu yn ffordd wych o ddangos bod diogelu yn rhan o'n ffydd mewn Duw cyfiawn a chariadus, codi ymwybyddiaeth o ddiogelu a galluogi eglwysi i rannu rhywfaint o'r gwaith da y maent yn ei wneud i ofalu am bobl a'u hamddiffyn.

Hon fydd y bedwaredd flwyddyn i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Bresbyteraidd Cymru a'r Panel Diogelu Cydenwadol annog eglwysi i gynnwys Sul Diogelu yn eu calendr eglwysig blynyddol.

Mae Sul Diogelu yn fenter a gychwynnwyd gan Thirtyone:eight, elusen ddiogelu Gristnogol sy'n gweithio ac yn ysbrydoli eraill i 'siarad ar ran y y bobl sydd heb lais' fel y dywedir yn llyfr y Diarhebion 31:8 – a dyna sail enw'r elusen.

I gymryd rhan, cofrestrwch am ddim yma: https://safeguardingsunday.org.

Byddwch yn derbyn canllaw ac adnoddau ar-lein i'ch helpu i gynnal gwasanaeth cyfan, neu ran o wasanaeth. Bydd y rhain yn cynnwys gweddïau, nodiadau pregeth, syniadau am weithgareddau, adnoddau plant a mwy.

Ceir mwy o wybodaeth ar wefan y Panel Diogelu Cydenwadol: https://panel.cymru/cy/sul-diogelu.

**Dyma ddetholiad o weddïau:**

**Gweddi o ddynesu**
Duw hollalluog, cariadus, tragwyddol;
Yr hwn a geisiodd y salmydd,
Yr hwn y breuddwydiodd y proffwydi amdano ac a gawsant weledigaethau ohono,
Yr hwn a ymwelodd â Mair a Joseff,
Yr hwn trwy dyrfa angylaidd a anogodd y bugeiliaid i geisio'r baban,
Yr hwn a osododd seren yn yr awyr a arweiniodd y doethion o'r dwyrain,
Yr hwn a roddodd, trwy Fair, y baban Iesu a osodwyd mewn preseb,
Yr hwn a ddioddefodd ac a roddodd ei fywyd yn Iesu ar y groes,
Arwain ni, bendithia ni, heria a newidia ni,
wrth i ni ddod ger dy fron heddiw. Amen.

**Gweddi o addoliad**
Dduw sanctaidd, mewn parch yr ydym yn ymgynnull ger dy fron,
Mewn addoliad yr ydym yn rhyfeddu at dy roddion y tu hwnt i fesur,
Rydym wedi ein bendithio y tu hwnt i ddychymyg gan dy gariad
a dywalltwyd ar bob un ohonom.
Ac eto wedi'i blethu â'n haddoliad
y mae ofn,
Ofn na allwn bob amser garu fel yr wyt ti'n ein caru ni,
Ofn na allwn bob amser roi ein cyfan.
Ond eto rydym yn dod i'th addoli a cheisio rhoi ein cyfan bob amser.
Amen.

**Gweddi o gyffes/edifeirwch**
O Arglwydd ein Duw, down fel yr ydym,
gan ddod â'n tristwch a'n cywilydd
ac o'th flaen rydym yn cynnig ein cyffes.
Mae'n ddrwg gennym ein bod mor aml yn ceisio caru'r rhai o'n cwmpas
ond yn canfod ein bod weithiau hefyd
yn teimlo casineb tuag atynt.
Mae'n ddrwg gennym, er ein bod yn ymdrechu, yn ceisio, yn hiraethu am fyw yng ngoleuni dy bresenoldeb,
ein bod yn crwydro ac yn gweld cysgodion tywyllwch bywyd.
Mae'n ddrwg gennym ein bod mor awyddus i ufuddhau i'th orchmynion,
dy arweiniad, dy ffyrdd, dy Air,
ac eto rydym yn canfod ein hunain
yn troi oddi ar y llwybr, yn mynd yn ôl,
yn gwneud ein rheolau ein hunain.
Mae'n ddrwg gennym ein bod yn dweud ein bod yn blant i Dduw, dy blant, wedi ymrwymo i'th ffordd
ac eto nid ydym bob amser yn byw'r her a'r ymrwymiad hwnnw.
Mewn tristwch a chywilydd, rydym yn cyffesu ein pechodau, ein methiannau, ein diffygion
ac rydym yn ceisio, O Arglwydd ein Duw, dy faddeuant.
Amen.

**Sicrwydd o faddeuant**
Mae'r Arglwydd Hollalluog yn clywed ein gweddïau,
yn gwybod ein meddyliau, ein dymuniadau a'n poenau dyfnaf.
Mae'r Arglwydd ein Duw yn clywed ein cyffes
ac yn ein sicrhau bod ein pechodau wedi'u golchi i ffwrdd,
ein bywydau wedi'u glanhau a'u hadfer,
a'n beichiau wedi'u codi.
Gadewch inni glywed gair Duw felly …
fy mhlentyn, mae dy bechodau wedi'u maddau,
dos mewn cariad,
dos mewn tangnefedd. Amen.

**Gweddi o fawl a diolchgarwch**
Mawl a diolchgarwch i ti, O Dduw,
am dy dosturi, dy ddealltwriaeth a'th ofal.
Mawl a diolchgarwch i ti, O Dduw,
am dy gariad diderfyn, y tu hwnt i fesur.
Mawl a diolchgarwch i ti, O Dduw,
am helaethrwydd dy roddion.
Mawl a diolchgarwch i ti, O Dduw,
am haelioni dy Ysbryd.
Mawl a diolchgarwch i ti, O Dduw,
am ddyfnder dy ddealltwriaeth.
Mawl a diolchgarwch i ti, O Dduw,
am led dy drugaredd.
Mawl a diolchgarwch i ti, O Dduw,
am ddoethineb dy fodolaeth.
Amen.

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru